Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd

Llanrhystud
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 5DW

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Eglwys yng Nghymru dan Reolaeth Wirfoddol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 84 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 66 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 12.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 15.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 34.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Gorffennaf 1995 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Ionawr 2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd yn blaenoriaethu lles disgyblion yn llwyddiannus. Gyda chefnogaeth cymuned yr ysgol, mae gweledigaeth y pennaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r ysgol yn meithrin partneriaethau yn llwyddiannus, ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rieni gyfrannu at brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo gwerthfawrogiad y disgyblion o'u cynefin ac yn cynnig gweithgareddau amrywiol i'w cymell a'u hysbrydoli. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad y ddarpariaeth ac mae ganddynt fedrau gwrando da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd, digidol ac ysgrifennu yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu'r disgyblion yn gyfathrebwyr Cymraeg hyderus yn anghyson, ac nid yw'r cyfleoedd i feithrin eu medrau darllen yn ddigon bwriadus.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth drylwyr o anghenion pob disgybl ac maent yn defnyddio eu harbenigedd i gefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae'r staff yn cydweithio'n gynhyrchiol gydag amrywiaeth eang o bartneriaid er mwyn cefnogi lles a chynnydd pob disgybl. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu yn eu hannibyniaeth ac i wneud penderfyniadau am gynnwys a chyfeiriad eu dysgu.

Mae athrawon yn cynnal momentwm y dysgu yn effeithiol, yn monitro cynnydd disgyblion yn graff ac yn rhoi arweiniad ac adborth llafar priodol sy'n helpu disgyblion i wella eu gwaith. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n ddwys ar eu gwaith a gwella safon gwaith estynedig.

Mae hyrwyddo cydweithio agos rhwng arweinwyr ac athrawon wrth hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn sicrhau bod yr ysgol yn datblygu'n bwrpasol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Gwella medrau llafaredd a darllen disgyblion yn y Gymraeg

A2 Lleihau’r defnydd o fframweithiau parod a darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr fwy annibynnol

A3 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwneud cynnydd yn eu dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy’n darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer lles disgyblion. Caiff gweledigaeth y pennaeth i ddarparu’r amodau a’r cyfleoedd i bob disgybl wneud cynnydd cadarn ei hadlewyrchu’n effeithiol yn arwyddair yr ysgol, ‘Gorau Dysg i Herio’r Dydd a Fynnwn i Fyfenydd’, a’i berchnogi’n llwyddiannus gan randdeiliaid yr ysgol.

Mae’r ysgol yn sefydlu partneriaethau yn llwyddiannus ac yn manteisio’n fuddiol ar ei pherthynas ag ysgolion cyfagos a’r gymuned o’i chwmpas. Mae’r staff cyfeillgar yn annog rhieni yn llwyddiannus i ymgysylltu â phrofiadau dysgu’r disgyblion. Mae cyfleoedd priodol i rieni dderbyn gwybodaeth am gynnydd disgyblion ac i gyfrannu tuag at ddarpariaeth thematig yr ysgol. Mae’r ysgol yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fanteisio ar arbenigeddau aelodau o’r gymuned a chydweithio â busnesau lleol. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ethos cymunedol a cydweithredol sydd â’i bryd ar gyfoethogi profiadau a chefnogi dysgu’r disgyblion.

Mae staff yn cyflwyno cwricwlwm sy’n datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd fel parch, empathi ac amrywiaeth yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio mewn gwasanaethau cydaddoli. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a chyfeillgar ac yn awyddus i gynorthwyo ei gilydd mewn gwersi ac yn ystod cyfnodau egwyl.

Mae agwedd y rhan fwyaf at fywyd a gwaith yr ysgol yn glodwiw. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol am gyfnodau priodol ac yn trafod tasgau a phrofiadau dysgu yn frwdfrydig.

Mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n ystyriol i feithrin gwerthfawrogiad y disgyblion o'u hardal leol. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd dysgu a phrofiad ac maent yn darparu ystod o weithgareddau dychmygus a gwreiddiol sy'n hybu datblygiad y medrau. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fwydo syniadau a llywio cyfeiriad y ddarpariaeth gwricwlaidd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at sicrhau ymrwymiad bron bob un. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau gwrando cadarn yn fuan yn eu cyfnod yn yr ysgol. Ar draws yr ysgol, maent yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau oedolion yn ufudd ac maent yn ystyriol o gyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu geirfa a phatrymau iaith syml yn fuan, sy'n eu galluogi i sgwrsio yn bwrpasol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn ehangu ar yr eirfa hon ac yn datblygu ymwybyddiaeth dda o gywair a chynulleidfa wrth fynegi eu hunain. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau'r staff o gywirdeb ieithyddol yn ddigon cyson ac uchel wrth i ddisgyblion gyfathrebu yn y Gymraeg, i'w cefnogi i ddatblygu'n siaradwyr hyderus.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth ffoneg yn llwyddiannus ac yn defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn datblygu medrau sy'n addas ar gyfer eu hoed a'u gallu. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau darllen yn ddigon bwriadus er mwyn datblygu darllenwyr medrus, annibynnol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn cael mynediad llawn at eu dysgu ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn y Gymraeg.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gyflym o arbrofi gyda marciau i ffurfio llythrennau a geiriau sylfaenol yn glir a chywir. Wrth symud tuag at frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwrpas, cynulleidfa a ffurf wrth ysgrifennu, ac yn cymhwyso eu medrau yn y ddwy iaith yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol amrywiol ac i dyfu'n hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o raglenni digidol. Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion mewn cyd-destunau ysgogol ac ymarferol. O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r staff yn defnyddio eu gwybodaeth drylwyr am anghenion disgyblion unigol a'u dealltwriaeth gadarn o amrywiaeth o arddulliau addysgu pwrpasol er mwyn cefnogi'r

dysgu yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol. Mae'r staff yn cydweithio'n fwriadus â rhieni a phartneriaid eraill i ddatblygu darpariaeth sy'n diwallu anghenion bron pob disgybl yn fuddiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan rwystrau eraill i'w dysgu, yn gwneud cynnydd cadarn.

Ar y cyfan, mae athrawon yn rheoli cyflymder y dysgu yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal eu diddordeb a'u hymrwymiad i'w gweithgareddau. Mae athrawon yn arsylwi dealltwriaeth a chynnydd disgyblion yn graff mewn sesiynau dysgu ac yn ymyrryd a chynnig arweiniad yn bwrpasol. Mae'r staff yn cynnig adborth llafar priodol sy'n annog disgyblion i wella safon eu gwaith. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i farcio athrawon wrth gywiro mân wallau fel camsillafiadau, camgymeriadau atalnodi a chamgyfrifo. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn ddwfn am ansawdd eu gwaith a chodi safonau gwaith estynedig.

Mae'r disgyblion yn cael eu cefnogi'n fwriadus i ddyfalbarhau a cheisio eu datrysiadau eu hunain cyn gofyn i oedolion am gymorth, er enghraifft drwy ddefnyddio'r strategaeth 'tri cyn fi'. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid oes digon o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu yn eu hannibyniaeth. Mae tuedd gan y staff i or-arwain disgyblion wrth gyflwyno tasgau a gorddibyniaeth ar fframweithiau parod yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt wneud penderfyniadau am eu dysgu.

Mae'r staff yn rhoi sylw effeithiol i'r amgylchedd ddysgu allanol a mewnol. Maent yn manteisio'n dda ar y gofod sydd ar gael o fewn yr adeilad i gyflwyno arddangosfeydd atyniadol sy'n sgaffaldau effeithiol i gefnogi'r dysgu ac yn dathlu llwyddiannau disgyblion. Mae ardaloedd addysgu allanol eang yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol yn gadarn. Mae'r llywodraethwyr a'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol wrth graffu ar dystiolaeth, cynnal teithiau dysgu a thrafod gwaith disgyblion. Maent yn rhannu gwybodaeth fanwl ac yn rhannu argymhellion buddiol i'w monitro yn ddiweddarach. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr a'r athrawon ddealltwriaeth drylwyr o'r meysydd i'w datblygu ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae pob aelod o'r staff addysgu yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cefnogi eu dyheadau proffesiynol ac yn cyd-fynd yn llwyddiannus ag anghenion datblygu'r

ysgol. Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod aelodau staff yn rhaeadru prif negeseuon gweithgareddau dysgu proffesiynol ac yn gosod camau gweithredu perthnasol i gyd-destun yr ysgol. Mae’r pennaeth yn ofalgar iawn o staff yr ysgol ac yn hyrwyddo gwaith tîm effeithiol fel modd o warchod lles, ac o ganlyniad, sicrhau’r deilliannau gorau ar gyfer y disgyblion. Mae’r staff addysgu yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol yn eu cyfrifoldebau fel arweinwyr maes dysgu a phrofiad. Maent yn cydgynllunio, yn rhannu syniadau a phrofiadau yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, yn darparu’n ystyriol ar gyfer lles a chynnydd disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025